

Tanya Evans
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Adran Gwasanaethau Cymdeithasol
Anvil Court
Church Street
Abertyleri
NP13 1DB

Dyddiad:
23/05/2024

Annwyl Ms Evans,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Gwiriad Sicrwydd o Dîm Oedolion yn y Gymuned (Anabledau Dysgu yn benodol) Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein gwiriad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 26 a 28 Mawrth 2024. Diben y gwiriad sicrwydd oedd adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol wrth ymarfer eu dyletswyddau a'u swyddogaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth.

1. Cyflwyniad

Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014); llinellau ymholi allweddol; a'r safonau ansawdd yn y Cod Ymarfer mewn perthynas a pherfformiad â gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl.

Roedd ein llinellau ymholi allweddol yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau mewn perthynas â'r rhain: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau a Llesiant.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

- 1. Pobl** – I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

2. **Atal** – I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?
3. **Partneriaethau** – I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd uchel a chwbl integredig i bobl?
4. **Llesiant** – I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff pobl eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad 1.

2. Crynodeb

Crynodeb o'r canfyddiadau cyffredinol

- a. Mae tîm arwain sefydlog a phrofiadol ar waith sy'n darparu parhad o ran arweinyddiaeth. Mae'r uwch-reolwyr yn ymwybodol o'r heriau sylweddol parhaus a wynebwr wrth ymateb i'r galw, anghenion mwy cymhleth, a phwysau ariannol. Mae angen sicrhau bod pwyslais yn cael ei roi ar weithredu cynlluniau strategol cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau anabledau dysgu, ac mae cynlluniau cynaliadwyedd ariannol cadarn yn hollbwysig er mwyn atal toriadau byrdymor a ysgogir gan argyfyngau. Dywedodd ymarferwyr a rhanddeiliaid wrthym fod yr arweinwyr yn weladwy a bod cydberthnasau da ar lefel uwch gyda chyfathrebu agored. Mae ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu rheolwyr a'u bod ar y cyfan yn gallu ymdopi â'u llwythi achosion.
- b. Dywedodd pobl, ymarferwyr a rhai gofalwyr wrthym fod amrywiaeth dda o adnoddau a gwasanaethau cefnogol ar gael, ond yr hoffent weld mwy o gyfleoedd i oedolion ag anabledau dysgu wirfoddoli a chael gwaith ystyrlon. Ar lefel strategol, dylid canolbwyntio mwy ar gryfhau cyfleoedd i gydgyhyrchu a datblygu gwasanaethau sy'n ystyried anghenion a barn pobl ag anabledau dysgu.
- c. Ar lefel weithredol, gwelsom rai enghreifftiau o waith da gan ymarferwyr. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd yr asesiadau'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a'r canlyniadau yr oedd yn dymuno eu cyflawni. Roeddent wedi'u strwythuro o amgylch y pum elfen asesu ac yn deillio o sgysiau rhwng yr unigolyn, y gofalwr/teulu ehangach, a'r ymarferydd.

- d. Disgrifiodd y rhanddeiliaid a ymatebodd i'n harolwg gydberthnasau gwaith cadarnhaol â'r awdurdod lleol. Maent o'r farn bod y gweithwyr cymdeithasol yn ymatebol ac yn trin pobl ag urddas a pharch. Dywedodd un rhanddeiliad: *"Practitioners have always put the views of adults using our services at the forefront and always ensure they find out what is important to them"*.
- e. Pan fo unigolyn yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r tîm iechyd anabledau dysgu, gwelsom enghreifftiau da o ymarferwyr yr awdurdod lleol ac ymarferwyr y bwrdd iechyd yn cydweithio'n effeithiol ar lefel weithredol. Clywsom fod gwaith partneriaeth yn fwy heriol nawr gan nad yw'r timau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn rhannu'r un safle mwyach.
- f. Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo mathau gwahanol o gymorth tai er mwyn galluogi pobl i gyflawni eu canlyniadau, gan gynnwys y canlyniad i fyw mor annibynnol â phosibl yn y gymuned.

3. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pobl

Cryfderau

- 4.1 Mae gan rai pobl lais a rheolaeth dros y cymorth y maent yn ei gael ac mae'r gofal a'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, y canlyniadau y maent am eu cyflawni, a sut y gallant ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i hybu eu llesiant.
- 4.2 Gall gofalwyr gyfrannu at y gwaith o asesu a chynllunio gofal a chefnogaeth ar gyfer yr unigolyn y maent yn gofalu amdano ac roeddent wedi cael cynnig asesiad gofalwyr.
- 4.3 Mae'r cofnodion gofal cymdeithasol a welwyd yn cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau, cryfderau a risgiau'r bobl. Caiff y bobl eu hannog i gymryd rhan yn y broses asesu gan yr ymarferwyr sydd wedi cofnodi'n glir y ffordd orau o ymgysylltu â'r unigolyn ac sy'n deall ei ddymuniadau. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'n harolwg rhanddeiliaid fod yr ymarferwyr yn fedrus iawn wrth gael barn oedolion ag anabledd dysgu ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Dywedodd un rhanddeiliad: *"They adapt their working practices and communication methods to try and engage as many people as possible."*

- 4.4 Mae'r ymarferwyr yn frwdfrydig am eu gwaith, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod eu tîm yn gefnogol, yn broffesiynol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr ac maent yn gwerthfawrogi'r 'polisi drws agored' a hygyrchedd y rheolwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'n harolwg staff yn teimlo y gallant godi pryderon â rheolwyr/uwch-ymarferwyr. Gwnaethant ddweud ei bod hi'n hawdd mynd at y rheolwyr.
- 4.5 Dywedodd ymarferwyr wrthym eu bod yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd. Mae digon o gyfleoedd i fyfyrion ac mae'r felin drafod a gynhelir ddwywaith yr wythnos yn cynnig gofod myfyriol i drafod achosion cymhleth, sy'n broses gadarnhaol ym marn yr ymarferwyr.
- 4.6 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr wrthym y gallant fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant priodol pan fo angen. Ar hyn o bryd, gellir cael hyfforddiant ar y cyd â gweithwyr iechyd ym maes cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol, a mynegodd yr ymarferwyr farn gadarnhaol ar hyn.
- 4.7 Gall pobl gyfathrebu yn eu dewis iaith ac mae tystiolaeth i ddangos bod y cynnig rhagweithiol yn cael ei ddarparu.
- 4.8 Ar y cyfan, caiff yr angen am eiriolaeth ei ystyried a gwelsom dystiolaeth o bobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr anffurfiol.

Meysydd i'w gwella

- 4.9 Ni chaiff y cynnig o daliadau uniongyrchol i bobl a'u teuluoedd/gofalwyr ei hyrwyddo mewn ffordd gyson gan y timau. Caiff rhai pobl y cyfle i reoli eu cymorth eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Gwelsom dystiolaeth fod taliadau uniongyrchol yn gweithio'n dda i rai unigolion a'u teuluoedd. Fodd bynnag, fel sy'n wir am awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, gall fod yn anodd recriwtio cynorthwywyr personol i ddarparu cymorth drwy daliadau uniongyrchol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig mewn ffordd gyson, a bod pobl yn cael digon o wybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth. Rhaid cofnodi'r rheswm dros wrthod taliadau uniongyrchol hefyd.**
- 4.10 Roedd rhai o'r gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo nad oeddent bob amser yn cael gwybod am eu hawliau ac nad oeddent yn gwybod am yr holl gymorth/adnoddau cymunedol a oedd ar gael i ofalwyr yn eu hardaloedd, gan gynnwys taliadau uniongyrchol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gofalwyr yn ymwybodol o'r cymorth a'r adnoddau cymunedol sydd ar gael i'w helpu yn eu rôl ofalu.**

- 4.11 Dywedodd rhai o'r bobl wrthym nad ydynt bob amser yn cael cynnig fersiynau hawdd eu deall o ddeunyddiau, neu gymhorthion gweledol fel lluniau i'w helpu i ddeall. **Dylai'r awdurdod lleol gefnogi ymarferwyr i gynnig gwybodaeth mewn fformatau hygyrch i bobl bob amser. Gall hyn wella eu gallu i ddeall ac ymgysylltu yn sylweddol.**
- 4.12 Dywedodd pobl a'u gofalwyr wrthym eu bod wedi cael profiadau cymysg wrth gysylltu â'r awdurdod lleol. Dywedodd rhai o'r gofalwyr wrthym nad oeddent yn gwybod â phwy y dylent gysylltu. Roeddent yn teimlo ei bod yn llawer haws cysylltu pan fo ymarferydd penodedig wedi'i neilltuo iddynt. Dywedodd gofalwyr wrthym fod anghysondeb o ran ymarferwyr yn broblem ac roedd gweithwyr cymdeithasol rhai ohonynt wedi newid sawl gwaith. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd fod cysondeb o ran gweithwyr yn bwysig i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt ac y gall unrhyw newidiadau achosi straen iddyn nhw ac i'r unigolyn y maent yn gofalu amdano. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau presennol er mwyn sicrhau, lle y bo'n bosibl, nad oes yn rhaid i bobl ailadrodd eu stori ac i sicrhau bod pobl yn cael ymateb amserol a chyson pan fyddant yn cysylltu â'r awdurdod lleol.**
- 4.13 Dywedodd yr ymarferwyr a'r rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw fod rheolwyr yn cymeradwyo ac yn sicrhau ansawdd asesiadau a chynlluniau gofal a chefnogaeth. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion gofal cymdeithasol a welwyd yn dangos tystiolaeth gyson o oruchwyliaeth gan reolwyr. Soniodd ymarferwyr am grŵp sicrhau ansawdd ar lefel rheolwyr sy'n sicrhau ansawdd sampl o achosion. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o hyn yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod tystiolaeth o brosesau sicrhau ansawdd a goruchwyliaeth gan reolwyr yn cael ei chofnodi mewn cofnodion gofal cymdeithasol.**
- 4.14 O'r naw o bobl a ymatebodd i'n harolwg, dywedodd 56% wrthym eu bod yn teimlo y gwrandewir arnynt ac y caiff eu safbwyntiau a'u dymuniadau eu hystyried yn ystod y broses o gynllunio gofal. Fodd bynnag, nododd ychydig llai na hanner y bobl a ymatebodd i'n harolwg nad oeddent yn teimlo y gwrandewir arnynt o gwbl (11%) neu mai dim ond weithiau y gwrandewir arnynt (33%). **Yn gyffredinol, mae 'gwrando' yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei wella.**

Atal

Cryfderau

- 4.15 Dywedodd y rhan fwyaf o bobl, ymarferwyr a rhai gofalwyr wrthym fod amrywiaeth dda o adnoddau cymunedol ym Mlaenau Gwent. Roedd tystiolaeth o hyn yn rhai o'r cofnodion gofal cymdeithasol a welwyd.

- 4.16 Dywedodd ymarferwyr wrthym fod amrywiaeth dda o dechnoleg gynorthwyol a bod y dechnoleg hon yn cael ei gosod yn gyflym ar ôl atgyfeiriad. Caiff staff gwybodaeth, cyngor a chymorth eu hyfforddi i roi gwybodaeth a chyngor ynghylch y cymhorthion technoleg gynorthwyol mwyaf addas i bobl a gofalwyr yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol. Roedd tystiolaeth o hyn hefyd yn rhai o'r cofnodion gofal cymdeithasol a welwyd.
- 4.17 Cwblhawyd gwaith yn ddiweddar ar ddau 'bod' hunangynhwysol ochr yn ochr â darpariaeth seibiant bresennol Augusta House er mwyn darparu cyfleuster ailalluogi gwell i asesu a datblygu sgiliau annibyniaeth pobl. Gosodwyd technoleg gynorthwyol yn y podiau er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol. **Mae hyn yn enghraifft o ymarfer cadarnhaol.**
- 4.18 Dywedodd ymarferwyr a gofalwyr wrthym fod digon o ddarpariaeth seibiant byr ar gael. Roedd pobl a gofalwyr yn canmol Augusta House.

Meysydd i'w gwella

- 4.19 Er i ni glywed am gyfleoedd gwirfoddoli da, dywedodd pobl, gofalwyr ac ymarferwyr wrthym eu bod am gael mwy o gyfleoedd gwaith a gwirfoddoli. Dywedodd un unigolyn ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei gwerthfawrogi pan oedd yn ennill arian drwy wneud gwaith yn y gymuned leol. Mynegodd un gofalwr bryder bod "*many people's skills are going unnoticed because of the absence of work opportunities for them*". **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod digon o gyfleoedd gwaith a gwirfoddoli ar gael yn y gymuned leol.**
- 4.20 Gwelsom a chlywsom am enghreifftiau o waith cynllunio wrth gefn cyfyngedig ar gyfer yr hyn a fydd yn digwydd os na fydd rhywun y mae'r unigolyn yn dibynnu arno yn gallu parhau i ddarparu gofal a chefnogaeth. Mae gwaith cynllunio wrth gefn a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn bwysig er mwyn rhoi sicrwydd i bobl fod trefniadau addas ar waith os bydd argyfwng. Gwelsom enghreifftiau lle byddai prosesau cynllunio wrth gefn rhagweithiol wedi bod yn fuddiol ac y gellid bod wedi osgoi argyfwng. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr gofal cymdeithasol yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r unigolyn a'r rhai sy'n gysylltiedig â'i gynllun gofal a chefnogaeth ac yn gwneud penderfyniadau perthnasol yn barod ar gyfer sefyllfaoedd brys/argyfyngau.**
- 4.21 Cyfeiriodd y rhan fwyaf o ymarferwyr at yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chael cymorth therapi galwedigaethol amserol. Mae hyn weithiau'n digwydd o ganlyniad i ddryswch ynghylch cyfrifoldebau therapyddion galwedigaethol yn y Tîm Adnoddau Cymunedol a therapyddion galwedigaethol yn y Tîm Iechyd Anableddau Dysgu. **Rhaid i'r awdurdod lleol weithio gyda'r bwrdd iechyd i**

sicrhau bod dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau er mwyn sicrhau nad yw pobl ag anabledd dysgu yn profi oedi diangen cyn cael cymorth therapi galwedigaethol priodol.

- 4.22 Dywedodd y rhan fwyaf o ymarferwyr eu bod yn gallu ymdopi â'u llwyth gwaith, ond dywedodd rhai aelodau o staff wrthym nad oeddent yn gallu ymdopi â'u llwythi achosion unigol. Mae galw a llwythi achosion uchel yn golygu na chaiff adolygiadau statudol bob amser eu cynnal mewn modd amserol. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chefnogaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y ddarpariaeth briodol.**

Partneriaeth

Cryfderau

- 4.23 Disgrifiodd bron pob un o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'n harolwg gydberthnasau gwaith cadarnhaol â'r awdurdod lleol. Mae llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod gan eu sefydliad lais a rôl i'w chwarae wrth nodi ac ysgogi gwelliannau a newidiadau ar lefel leol/ranbarthol i wasanaethau ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu. Maent yn teimlo bod gweithwyr cymdeithasol yn ymatebol ac yn trin pobl ag urddas a pharch. Dywedodd un rhanddeiliad: *"We have excellent working relationships with the CLDT in Blaenau Gwent and feel confident we will receive their support to achieve the best outcomes"*. Mynegwyd yr un safbwyntiau hefyd gan yr ymarferwyr a'r rheolwyr y clywsom ganddynt.
- 4.24 Ar y cyfan, roedd ymarferwyr o'r farn fod gwaith partneriaeth â chydweithwyr iechyd yn gweithio'n dda pan oedd yr unigolyn yn hysbys i'r Tîm Iechyd Anableddau Dysgu. Dywedodd un ymarferydd: *"We saw some examples of good partnership working with health colleagues with good exchange of information between partners."*

Meysydd i'w gwella

- 4.25 Clywsom fod gwaith partneriaeth yn fwy heriol nawr gan nad yw'r timau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn rhannu'r un safle mwyach. Dywedodd un ymarferydd wrthym *"I have never seen the gulf between health and social services so wide"*. Un ffactor sy'n atal unigolion rhag gallu rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol yw'r ffaith bod ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn defnyddio dulliau a systemau gwahanol i gofnodi gwybodaeth. Nid yw ymarferwyr iechyd ac ymarferwyr gofal cymdeithasol yn gallu cael mynediad i systemau rheoli cofnodion ei gilydd. Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth am iechyd ac anghenion gofal a chefnogaeth pobl ar gael yn hawdd i bartneriaid. **Rhaid i'r awdurdod lleol weithio gyda'r bwrdd iechyd lleol i**

adolygu'r systemau, y prosesau a'r strwythurau sydd ar waith er mwyn integreiddio systemau rhannu gwybodaeth a chydweithio yn well a'u gwneud yn fwy hygyrch.

- 4.26 Mae cynllun y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig ar gyfer yr awdurdod lleol yn nodi'r bwriad i drefnu gweithdai yn ystod 2023 er mwyn nodi bylchau yn unol ag amcanion blaenoriaeth y Bwrdd gyda'r nod o roi trefniadau cyflawni sefydliadol ar waith i ddiwallu anghenion lleol pobl ag anabledd dysgu. **Dylai'r awdurdod lleol ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio/datblygu ei gynllun gweithredu yn y tymor byr/canolog/hir fel y gall y Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Integredig nodi meysydd â blaenoriaeth i bobl ag anabledd dysgu ar gyfer 2024-2026.**

Llesiant

Cryfderau

- 4.27 Yn y rhan fwyaf o'r achosion y gwnaethom edrych arnynt, mae ymarferwyr yn ystyried galluedd meddyliol pobl i gymryd rhan yn eu hasesiadau, y broses o gynllunio eu gofal a chefnogaeth, ac ymholiadau diogelu. Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau galluedd meddyliol a welsom o ansawdd da ac yn dangos tystiolaeth fod yr ymarferydd yn meddu ar y wybodaeth a'r gallu i ymarfer yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
- 4.28 Er bod rhywfaint o oedi ar lefel ranbarthol wrth ddyrannu a chynnal asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid er mwyn penderfynu a yw rhywun yn cael ei amddifadu o'i ryddid, roedd ansawdd y sampl o asesiadau wedi'u cwblhau a welsom yn dda.
- 4.29 Mae'r awdurdod lleol yn monitro cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid mewn ffordd ragweithiol ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'i gryfderau presennol yn ogystal â'r meysydd sy'n heriol neu y mae angen eu gwella ymhellach.
- 4.30 Gwelwyd tystiolaeth bod yr ymarferwyr a'r rheolwyr yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdodau Rheoli i sicrhau bod ceisiadau am gyfnodau ychwanegol o awdurdodiad yn cael eu cyflwyno'n brydlon. Mae hyn yn lleihau'r risg y caiff pobl eu hamddifadu o'u rhyddid heb fod y mesurau diogelu yn parhau ar waith i'w hamdiffyn. **Mae hyn yn enghraifft o arfer cadarnhaol.**
- 4.31 Yn yr un modd, mae'r awdurdod lleol yn gwybod ac yn deall y rhesymau pam mae ei ardal ymhlith yr awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n cael y nifer uchaf o

geisiadau am awdurdodiad safonol yn dilyn awdurdodiad brys ac mae'n gweithio gyda'r Awdurdodau Rheoli i fynd i'r afael â'r mater.

- 4.32 Mae'r awdurdod lleol yn cymryd camau rhagweithiol i nodi sefyllfaoedd lle nad oed gan unigolyn alluedd i gydsynio i'r trefniadau a wneir ar gyfer gofal a chefnogaeth ac sydd wedi'i amddifadu o ryddid mewn lleoliadau cymunedol ac i gyflwyno ceisiadau amserol i'r Llys Amddiffyn. **Mae hyn yn enghraifft o ymarfer cadarnhaol.**
- 4.33 Cadarnhaodd y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom a'n sgysiau ag ymarferwyr ac arweinwyr diogelu allanol fod adroddiadau diogelu oedolion yn cael ymateb amserol a chymesur. Caiff yr adroddiadau hyn eu sgrinio ac roedd y rhan fwyaf o'r ymholiadau a welsom wedi'u cyflawni'n unol â'r gofynion statudol. Roedd y broses dadansoddi a gwneud penderfyniadau wedi'i dogfennu, gan flaenoriaethu diogelwch a hybu llesiant y bobl.
- 4.34 Mae trafodaethau a chyfarfodydd strategeth yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol perthnasol a chaiff y rhan fwyaf ohonynt eu cynnal mewn modd amserol.
- 4.35 Mae rhanddeiliaid yn cydnabod ei bod yn bwysig meithrin cydberthnasau cydweithredol cryf. Clywsom am y cynghreiriau cadarn hyn, a gaiff eu nodweddu gan brosesau cyfnewid gwybodaeth cynhwysfawr, systemau diffiniedig, cyfleoedd i wneud penderfyniadau, adolygiadau rhagweithiol o achosion, a dealltwriaeth glir o rolau a dyletswyddau. Un o nodweddion pwysig y cydberthnasau hyn yw'r ymrwymiad cyffredin i sicrhau diogelwch pobl.

Meysydd i'w gwella

- 4.36 Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod gan bobl fwy o lais yn ystod y broses ddiogelu. Dylai'r unigolyn fod wrth wraidd y broses hon bob amser a dylid gallu gweld tystiolaeth o hyn ym mhob dogfen. Ar hyn o bryd, ni allwn ddweud yn hyderus fod pobl yn cael eu cynnwys i'r graddau a nodir ym mandad Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Roedd yn aneglur mewn rhai achosion a oedd pobl yn cael eu cynnwys mewn asesiadau neu wrth wneud penderfyniadau ynghylch ymholiadau diogelu. Yn gyffredinol, nid oes digon o dystiolaeth i ddangos bod pobl sy'n destun adroddiad oedolyn sy'n wynebu risg yn cael eu cynnwys mewn ffordd gyson yn y broses ddiogelu a bod gwasanaethau eirioli yn cael eu hystyried a'u defnyddio'n gyson fel rhan o drefniadau diogelu, yn enwedig os yw'r teulu yn rhan o'r broses. **Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau'r maes hwn er mwyn sicrhau bod barn pobl a'u teuluoedd/gofalwyr yn amlwg lle bo hynny'n briodol.**

- 4.37 Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y broses sicrhau ansawdd yn cael ei chynnal mewn modd amserol ar ôl i bryderon diogelu ddod i law. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod proses sicrhau ansawdd gadarn ar waith sy'n blaenoriaethu diogelwch, yn ymateb i bryderon, ac yn gwella'r fframwaith diogelu yn barhaus er mwyn atal niwed a hybu llesiant.**
- 4.38 Dywedodd ymarferwyr a rheolwyr wrthym fod meysydd i'w datblygu o ran rhoi dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar gryfderau ar waith wrth gofnodi a dogfennu adroddiadau diogelu, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau cadarnhaol i'r unigolyn a'i gryfderau, yn hytrach na dim ond y risgiau neu'r problemau. Gellid cryfhau asesiadau llesiant hefyd drwy eu hysgrifennu'n gyson yn y person cyntaf a nodi'r hyn sy'n bwysig i'r bobl a'r canlyniadau y maent yn dymuno eu cyflawni. Nid oedd hyn i'w weld yn gyson ym mhob ffeil. **Dylai'r awdurdod lleol ddatblygu canllawiau clir ar gyfer dogfennau gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar gryfderau.**
- 4.39 Gwelsom fod y tîm diogelu yn cydgysylltu atgyfeiriadau'n effeithiol, gan ddefnyddio arbenigedd y bobl sydd â'r cydberthnasau a'r wybodaeth fwyaf perthnasol i gynnal ymholiadau. Mae'r tîm hwn yn mynd ati'n rhagweithiol i gael y wybodaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, clywsom am achosion o oedi wrth gwblhau ymholiadau diogelu. Gwelwyd hyn mewn rhai o'r cofnodion achos y gwnaethom edrych arnynt. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gan bob ymarferydd a phartner ddealltwriaeth well o amserlenni a'u bod yn cydnabod eu rôl ym maes amddiffyn pobl a gweithio mewn partneriaeth â'r tîm diogelu.**

5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol iechyd ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r arferion cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

6. Methodoleg

Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer y gwiriad sicrwydd drwy adolygu profiadau 23 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u

holrhain. Gwnaethom edrych ar 19 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.

- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys, lle y bo'n bosibl, sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweiliadau â 14 o bobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweiliadau â 23 o gyflogeion yr awdurdod lleol. Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, uwch-ymarferwyr, rheolwyr tîm, rheolwyr gwasanaeth, a phennaeth y gwasanaeth ar gyfer plant.
- Gwnaethom edrych ar y dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben y gwiriad sicrwydd.
- Gwnaethom ddsbarthu arolygon i ymarferwyr yr awdurdod lleol, sefydliadau partner, a phobl ag anabledd dysgu sy'n cael gofal a chymorth a'u gofalwyr.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn <https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>.

7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol ar yr achlysur hwn, gan fod yr awdurdod lleol wedi ein hysbysu nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan yn dymuno cyfrannu at y gwiriad sicrwydd hwn yn Gymraeg.

8. Diolchiadau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at y gwiriad sicrwydd hwn.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru

Atodiad 1

Rhestr Terminoleg

Term	Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau
Rhaid	Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu.
Dylai	Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd statudol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg y gallai'r awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol.
Arfer cadarnhaol	Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol.
Atal ac Ymyrryd yn Gynnar	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu.
Llais a Rheolaeth	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt.
Llesiant	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
Cydgynhyrchu	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n

	golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau.
Gwaith amlasiantaethol	Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.
Yr hyn sy'n bwysig	Mae sgysiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.



© Hawlfraint y Goron 2024

WG49984 | ISBN Digidol 978-1-83625-102-6